# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 17 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Darpariaeth Chwaraeon yng Nghymru

**C7 Val Feld:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd gyda chyrff perthnasol ynghylch defnydd posibl o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer darpariaeth chwaraeon yng Nghymru? (OAQ11483) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Cefais drafodaethau cyffredinol ynghylch defnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer darpariaeth chwaraeon yng Nghymru. Mae'r rheini'n cynnwys y cais am Gwpan Ryder.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, sydd yn gweithredu polisi chwaraeon ar ran y Cynulliad, yn ymwybodol bod angen ymchwilio i gyfleoedd o dderbyn nawdd Ewropeaidd, yn enwedig mewn perthynas â'r prosiectau cyfalaf mwy a noddir gan y Loteri. Rhaid sylweddoli, fodd bynnag, bod rhaid cael buddiannau economaidd amlwg er mwyn bod yn gymwys ar gyfer grantiau Ewropeaidd.

### Y Swyddfa Gyfathrebu

**C8 Jocelyn Davies:** Pa gynrychiolaeth a fydd gan Gymru ar y Swyddfa Gyfathrebu yn sgîl sefydlu'r fframwaith rheoleiddio newydd drwy'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar ddarlledu a chyfathrebu? ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Jenny Randerson**: Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Chris Smith, yn dilyn trafodaeth mewn Cyfarfod Llawn ynghylch y Papur Gwyn, 'A New Future for Communications', gan gynnwys ymateb llawn Cabinet y Cynulliad a chofnod o'n trafodaeth. Gyda golwg ar y Swyddfa Gyfathrebu (OFCOM), yr oedd yr ymateb yn argymell y dylai'r Mesur ddarparu ar gyfer lle i aelod o Gymru ar fwrdd OFCOM. Os bydd gweinyddiaeth newydd yn San Steffan yn deddfu i weithredu'r Papur Gwyn ar gyfathrebu, byddaf yn ceisio sicrhau ei fod yn ymgynghori â'r Cynulliad.

### Nifer Ymwelwyr â'r Pwll Mawr

**C9 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer yr ymwelwyr â'r Pwll Mawr ers cyflwyno mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru? (OAQ11465) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Jenny Randerson**: Daeth 18,542 o ymwelwyr i'r Pwll Mawr ym mis Ebrill 2001, o'i gymharu â 12,076 ym mis Ebrill 2000—cynnydd o 54 y cant. Yr wyf wedi gosod tabl ar dudalennau diwylliant, chwaraeon a'r Gymraeg gwefan y Cynulliad sydd yn dangos y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ym mhob un o wyth safle Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ers cyflwyno mynediad am ddim i'r holl ymwelwyr ar 1 Ebrill.

**Cyflwr Cae Stadiwm y Mileniwm**

**C10 Peter Black:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cyflwr cae Stadiwm y Mileniwm? (OAQ11444) ***Tynnwyd yn ôl.***

*Atebwyd cwestiynau 11 a 12 yn y Cyfarfod Llawn.*

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

**C13 Richard Edwards:** A fu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn sgîl rhoi mynediad am ddim iddynt gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynharach eleni? (OAQ11401) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Celf Genedlaethol yn y Gogledd**

**C14 Peter Rogers:** Pa gynlluniau sydd i arddangos celf genedlaethol yn y gogledd? (OAQ11445)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn benderfynol o sicrhau bod y casgliad celf cenedlaethol ar gael i gymaint o bobl â phosibl i'w weld ledled Cymru. Yr wyf wedi gofyn i'r Amgueddfa a'r Oriel Genedlaethol ystyried ffyrdd o wneud hynny. Gallai hyn olygu bod yn rhaid cydweithio'n fwy effeithiol gydag orielau ac amgueddfeydd awdurdodau lleol. Cynhelir ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn ddiweddarach eleni ac mae'r amgueddfa wedi trefnu seminar ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ar 17 Mai er mwyn cyflwyno canfyddiadau cynnar yr adolygiad, ac i alluogi Aelodau i gyfrannu eu safbwyntiau.

**Cyngor Celfyddydau Cymru (Goblygiadau Ariannol Datganoli)**

**C15 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau ariannol y polisi datganoli wrth ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ11490)

**Jenny Randerson:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn y broses o lunio'r costau manwl ar gyfer strwythur drefniadol newydd sydd yn rhoi mwy o bwyslais ar ranbarthau. Yr wyf wedi gofyn i'r cyngor gynllunio ar y sail na ddylai costau cynnal y sefydliad newydd fod yn uwch na'r trefniadau presennol. Yr wyf yn derbyn, fodd bynnag, y gallai'r cyngor wynebu costau untro er mwyn addasu i'r strwythur newydd. Bydd rhaid ystyried unrhyw gostau o'r fath nas gellir eu talu o gyllideb bresennol y cyngor yn y rownd cynllunio cyllideb nesaf.

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

**C16 Karen Sinclair:** Sut y mae cyflwyno mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wedi effeithio ar niferoedd ymwelwyr? (OAQ11409)

**Jenny Randerson**: Cyfanswm nifer y rhai a ymwelodd ag wyth safle Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2001 oedd 159,986, o'i gymharu ag 89,665 ym mis Ebrill 2000—cynnydd o 78 y cant. Yr wyf wedi gosod tabl ar dudalennau diwylliant, chwaraeon a'r Gymraeg gwefan y Cynulliad, sydd yn dangos y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ym mhob un o wyth safle Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ers cyflwyno mynediad am ddim i'r holl ymwelwyr ar 1 Ebrill.

**Hyrwyddo Rhagoriaeth yn y Byd Chwaraeon**

**C17 John Griffiths:** Pa strategaeth a ddefnyddir i hyrwyddo rhagoriaeth yn y byd chwaraeon yng Nghymru? (OAQ11472)

**Jenny Randerson**: Mae'r strategaeth a gyhoeddodd Cyngor Chwaraeon Cymru, 'Strategaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru', yn gosod y polisïau a'r cynlluniau i hyrwyddo rhagoriaeth yn y byd

chwaraeon yng Nghymru. Dosbarthwyd copi o'r strategaeth i holl Aelodau'r Cynulliad ac mae copi hefyd ar gael yn y Llyfrgell.

**Tasglu Pêl-droed**

**C18 Mick Bates:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried creu tasglu pêl-droed i Gymru? (OAQ11460)

**Jenny Randerson**: Cyfarfûm â swyddogion amryw o sefydliadau pêl-droed yng Nghymru, gan gynnwys Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Pêl-droed yn y Gymuned CBC. Trafodais amryw o faterion gyda hwy, gan gynnwys yr opsiwn i sefydlu fforwm pêl-droed yng Nghymru, yn bennaf er mwyn astudio materion sydd yn ymwneud â phêl-droed ar lawr gwlad yng Nghymru.

Yn sgîl y trafodaethau hyn, gofynnais i Gyngor Chwaraeon Cymru lunio drafft o gylch gorchwyl ar gyfer fforwm pêl-droed. Edrychaf ymlaen at dderbyn y cylch gorchwyl cyn hir.

**Cymorth i'r Celfyddydau**

**C19 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth a roddir i'r celfyddydau yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ11402) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ysgol Artistig y Flwyddyn**

**C20 David Melding:** Pryd y bydd y weinyddiaeth yn sefydlu gwobr y Cynulliad ar gyfer ysgol artistig y flwyddyn? (OAQ11479)

**Jenny Randerson**: Cyfrifoldeb fy nghydweithwraig, Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yw hwn. Nid oes ganddi unrhyw gynlluniau i sefydlu gwobr o'r fath ar hyn o bryd.

**Stadiwm y Mileniwm (Cwpan yr FA)**

**C21 Rosemary Butler:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch y posibilrwydd o wneud Stadiwm y Mileniwm yn lleoliad parhaol ar gyfer Cwpan y Gymdeithas Bêl-droed? (OAQ11407)

**Jenny Randerson**: Dim. Mater i Gymdeithas Bêl-droed Lloegr yn unig yw lleoliad Cwpan yr FA, a'r pecyn o gêmau sydd yn cyd-fynd â'r gystadleuaeth. Cynhaliwyd y pecyn hwn o ddigwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm yn dilyn trafodaethau rhwng Stadiwm y Mileniwm ccc a'r Gymdeithas Bêl-droed. Mae'r fargen ar hyn o bryd yn golygu y cynhelir y digwyddiadau yn y stadiwm am gyfnod o dair blynedd, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod hwnnw.

Er bod timau cynghrair Cymru yn gymwys i gystadlu yn yr amryw gystadlaethau, cystadlaethau Seisnig ydynt i gyd yn y bôn. Heb os nac oni bai, hoffai'r Gymdeithas Bêl-droed weld eu prif ddigwyddiadau yn dychwelyd i Loegr unwaith y bydd stadiwm wedi cael ei hadeiladu yn lle Stadiwm Wembley.

Yn y cyfamser, yr wyf wrth fy modd ein bod yn cael cyfle hwn yng Nghymru i elwa o'r proffil enfawr y bydd y cyfryngau yn ei greu yn sgîl y digwyddiadau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**Canolfan Mileniwm Cymru**

**C22 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Ganolfan Mileniwm Cymru? (OAQ11458)

**Jenny Randerson:** Yr oedd y datganiad a wnaed gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 5 Ebrill yn gosod nifer o amodau y bydd yn rhaid i Ganolfan Mileniwm Cymru gwrdd â hwy cyn y gall y Cynulliad lunio'i gasgliadau terfynol ar y prosiect. Mae Canolfan Mileniwm Cymru nawr yn gweithio tuag at gwrdd â'r amodau hynny.

**Prosiectau yn y Gymuned mewn Ardaloedd Difreintiedig**

**C23 Huw Lewis:** A all y Gweinidog gadarnhau ei chefnogaeth, o ran egwyddor, i ddatblygu cyfleusterau a phrosiectau sinema yn y gymuned mewn ardaloedd difreintiedig? (OAQ11464)

**Jenny Randerson:** Cefnogaf ehangu'r ddarpariaeth sinema i gymunedau ledled Cymru, ac mae hyn yn un o amcanion polisi arddangos Sgrîn. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd nad yw'n tanseilio'r sinemâu presennol. Clywais am y cynllun yr hoffai'r heddlu a phartneriaid lleol eraill ei sefydlu ym Merthyr. Gan ddibynnu ar strwythur terfynol y prosiect, efallai y byddai rhywfaint o nawdd ar gael gan Sgrîn a chronfa loteri Cyngor Celfyddydau Cymru. Gobeithiaf y daw rhywbeth o'r syniad.

**Cyngor Celfyddydau Cymru (Swyddi Newydd)**

**C24 Elin Jones:** Faint o swyddi newydd fydd yn cael eu creu yn dilyn y broses o ailstrwythuro Cyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ11485) [W]

**Jenny Randerson:** Gofynnais i Gyngor Celfyddydau Cymru gynllunio ar y sail y dylai'r strwythur staffio newydd fod yn niwtral o ran costau ei redeg. O ganlyniad i hyn, ni ddylai unrhyw gynnydd sylweddol ddigwydd yn nifer y swyddi o fewn y cyngor yn ei gyfanrwydd, er efallai y bydd angen ailddosbarthu swyddi'n ddaearyddol er mwyn gweddu i'r strwythur rhanbarthol newydd.

**Darlledu a Chyfathrebu**

**C25 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar bwysigrwydd darlledu a chyfathrebu i fywyd diwylliannol Cymru? (OAQ11493) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Swyddfa Gyfathrebu**

**C26 Rhodri Glyn Thomas:** A all y Gweinidog egluro sut y bydd y Swyddfa Gyfathrebu yn gweithio ac yn ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y ddeddfwriaeth darlledu a chyfathrebu arfaethedig? (OAQ11489) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwella Parciau Lleol**

**C27 Peter Black:** Sut y gall arian y loteri helpu cynghorau i wella parciau lleol? (OAQ11443) [R]

**Jenny Randerson**: Mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri raglen ar gyfer parciau trefol, sydd yn darparu grantiau cyfalaf i adfer, adfywio neu wella mynediad y cyhoedd at barciau trefol a pharciau a gerddi hanesyddol eraill. A chymryd y bodlonir meini prawf y rhaglen, gellir ystyried cymorth ar gyfer adfer tirluniau, atgyweirio strwythurau hanesyddol, atgyweirio ffiniau ac adnewyddu dodrefn, ymysg eitemau eraill.

Yn ogystal â hyn, gallai nawdd fod ar gael o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, dan ei rhaglen meysydd glas. Er mwyn llwyddo gyda chais o'r fath, fodd bynnag, dylid rhoi'r pwyslais ar gyfranogiad y gymuned.

I gael gwybodaeth ac arweiniad penodol, yr wyf yn cyfeirio'r Aelod at Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, Y Trydydd Llawr ar Ddeg, Tŵr y Brifddinas, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd, CF10 3AG.

**Diwydiant Cyhoeddi yng Nghymru**

**C28 Eleanor Burnham:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynorthwyo dyfodol y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru? (OAQ11461)

**Jenny Randerson:** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn dyfarnu cymorth grant i Gyngor Llyfrau Cymru yn flynyddol. Neilltuwyd £625,000 i'r cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Mae'r cyngor hefyd yn derbyn cefnogaeth gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Cyngor Llyfrau'n derbyn grant cyhoeddi blynyddol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sydd wedi bod dan arolygiaeth yn ddiweddar. Yr wyf yn ceisio symleiddio'r ffordd yr ariennir y Cyngor Llyfrau ac yr wyf yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn cyflawni'r nod hwn ac i edrych ar faterion ehangach. Yr wyf wedi gofyn i'r Dirprwy Weinidog dros Faterion Gwledig, Delyth Evans, gadeirio'r grŵp.

### Newidiadau o ran Blaenoriaethau (Clwy'r Traed a'r Genau)

**C29 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw newidiadau o ran blaenoriaethau a wnaeth yn ei phortffolio o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau? (OAQ11457)

**Jenny Randerson**: Ni wneuthum unrhyw newidiadau o ran blaenoriaethau yn fy mhortffolio o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau. Ymatebais i gais i roi gwarant gwerth £150,000 i Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn erbyn y risg o orfod gohirio'r Eisteddfod. Mae'r arian ar gyfer y gwarant yng nghronfa 2001-02 a grëwyd drwy ddefnyddio arbedion a wnaed mewn rhannau eraill o gyllideb y Cynulliad. Ni throsglwyddwyd unrhyw gronfeydd eraill i fy mhortffolio. Yr oedd adnoddau gwerth £150,000, a gynigwyd i Urdd Gobaith Cymru er mwyn iddo gynnal ymgyrch hyrwyddo yn yr hydref, eisoes wedi cael eu clustnodi ar gyfer yr Urdd yn y flwyddyn ariannol hon, yn wreiddiol fel cyfraniad at gostau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llandudno yn 2002.

### Oriel Genedlaethol o Gelfyddyd Fodern

**C30 Jonathan Morgan:** A wnaiff y weinyddiaeth sefydlu oriel genedlaethol o gelfyddyd fodern? (OAQ11481)

**Jenny Randerson**: Mae'r Amgueddfa a'r Oriel Genedlaethol eisoes wedi gwneud llawer o waith gyda'i baratoadau ar gyfer ymarfer ymgynghori ar ei bolisïau ynghylch arddangos darnau o gelfyddyd. Mae hwn yn ymarfer ymgynghori agored a chyhoeddus a fydd yn edrych ar amryw o opsiynau ar gyfer arddangos darnau o gelfyddyd yn y dyfodol, gan gynnwys y syniad o oriel genedlaethol. Mae'r amgueddfa'n cynnal trafodaeth ar ddyfodol celfyddyd yng Nghymru yn narlithfa Reardon Smith ar 17 Mai, ac estynnwyd gwahoddiad i holl Aelodau'r Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Adfywio'r Diwydiant Amaethyddol

**C6 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen i adfywio'r diwydiant amaethyddol yn dilyn clwy'r traed a'r genau? (OAQ11505) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Adfywio'r Diwydiant Amaethyddol (Strategaeth Tymor Hir)

**C7 Jocelyn Davies:** A all y Gweinidog roi braslun o'i strategaeth hirdymor ar gyfer adfywio'r diwydiant amaethyddol, y mae'r argyfwng clwy'r traed a'r genau presennol wedi effeithio'n ddwys arno? (OAQ11507)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Carwyn Jones)**: Bydd gwaith y grŵp Dyfodol Ffermio yn gosod y fframwaith ar gyfer cyfeiriad tymor hir y diwydiant, yn ogystal â mecanweithiau cefnogi i gynorthwyo teuluoedd ffermio i wneud penderfyniadau goleuedig ynghylch eu cynaliadwyedd yn y dyfodol, yn ogystal â chynaliadwyedd y diwydiant.

### Cynllun Porthiant ar gyfer Argyfyngau yn y Byd Amaeth yn y Dyfodol

**C8 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynglyn â sefydlu cynllun porthiant ar gyfer argyfyngau yn y byd amaeth yng Nghymru yn y dyfodol? (OAQ11418) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Hwyluso Adferiad y Byd Amaeth yng Nghymru (Strategaeth Tymor Hir)**

**C9 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno strategaeth tymor hir i hwyluso adferiad y byd amaeth yng Nghymru yn dilyn yr achosion o glwy'r traed a'r genau. (OAQ11431) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gweledigaeth Cefn Gwlad**

**C10 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog lunio gweledigaeth cefn gwlad ar gyfer Cymru. (OAQ11470)

**Carwyn Jones**: Mae dogfen strategol y Cynulliad, 'Y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru 2000-2006', a gyhoeddwyd ym 1999, yn darparu fframwaith, sy'n seiliedig ar ddatganiad 'Cymru Wledig' a gynhyrchwyd gan y bartneriaeth wledig ar gyfer Cymru. Yn ogystal â hyn, rhoddais gais ger bron y bartneriaeth wledig i ddatblygu polisi ar gyfer Cymru wledig yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror. Cytunodd y bartneriaeth i ganolbwyntio ar ddiogelu cymunedau cytbwys. Bydd hyn yn sylfaen y weledigaeth ar gyfer Cymru. Yr oedd yn rhaid gohirio gweithio ar y strategaeth hon tra'r oeddem yn ymateb i argyfwng clwy'r traed a'r genau, ond mae swyddogion yn gweithio ar gynigion ar gyfer fframwaith strategol, a gaiff ei baratoi dros 18 mis.

**Gwybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn ag Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau**

**C11 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ11498)

**Carwyn Jones**: Am 9.00 a.m. heddiw, mae 90 achos o glwy'r traed a'r genau wedi eu cadarnhau yng Nghymru.

**Adolygiad o'r Gweithdrefnu yn yr Adran Amaethyddiaeth**

**C12 David Davies:** A gynhelir adolygiad o'r gweithdrefnau yn adran amaethyddiaeth y Cynulliad yn sgîl argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ11435)

**Carwyn Jones**: Saif y cyfrifoldeb statudol dros fesurau rheoli clwy'r traed a'r genau yng Nghymru a Lloegr gyda'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Dan adran 41 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae swyddogion yn Adran Amaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud swyddogaethau gweinyddol a gweithredol ar ran MAFF ynglŷn â phrosesau rheoli a chael gwared â'r clwyf. Mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn un agwedd a gaiff ei hasesu yn dilyn clwy'r traed a'r genau.

**Adfywio'r Diwydiant Amaethyddol yng Nghymru yn Gyflym**

**C13 John Griffiths:** Pa gamau sydd yn cael eu cymryd i adfywio'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru yn gyflym? (OAQ11494)

**Carwyn Jones**: Bydd grŵp Dyfodol Ffermio'n cyfarfod y mis nesaf. Blaenoriaeth y grŵp fydd ystyried ffocws yr adroddiad drafft yng ngoleuni effaith clwy'r traed a'r genau. Fy nod i yw y bydd yr adroddiad, sy'n pennu cyfeiriad tymor hir ffermio yng Nghymru a'r rhaglenni gweithredu cynorthwyol, ar gael i'r cyhoedd erbyn canol tymor yr haf.

Yn ogystal â hyn, byddaf i a'm cydweithwyr yn parhau i weithio gyda'n cymheiriaid yn yr adrannau amaethyddol eraill yn y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau y ceir atebion perthnasol ac amserol i gefnogi'r byd amaeth yn dilyn clwy'r traed a'r genau.

**Cyfran o Dda Byw a Leddir ac a Brosesir yng Nghymru**

**C14 Owen John Thomas:** O'r da byw a gynhyrchir ar ffermydd Cymreig, pa gyfran sydd yn cael eu lladd a'u prosesu yng Nghymru? (OAQ11438) [W]

**Carwyn Jones:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael oherwydd bod gan ladd-dai unigol eu polisi eu hunain o ran cael gafael ar anifeiliaid.

**Datblygiad Cwmni Cig Cymru**

**C15 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiad cwmni cig Cymru? (OAQ11450)

**Carwyn Jones**: Mae bwrdd cwmni cig Cymru, a elwir bellach yn Dda Byw Cymru Cyfyngedig, yn ystyried datblygu nifer o gyfleoedd prosesu ar y cyd, yn y gogledd ac yn y de. Cyfarfu'r aelodau ym mis Chwefror er mwyn trafod cyfeiriad y cwmni yn y dyfodol a chytunwyd ar ei gynigion i ymchwilio ymhellach i'r mentrau ar y cyd hyn, ynghyd â chynnig arall ar gael a marchnata da byw. Mae'r cwmni'n sefydlu swyddfa yn Aberystwyth, yn recriwtio staff i fynd â'r busnes yn ei flaen ac, er gwaethaf y problemau a gafwyd yn sgîl clwy'r traed a'r genau, mae'n bwriadu masnachu yn ddiweddarach eleni.

**Safle Tirlenwi Penhesgyn**

**C16 Peter Rogers:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn ceisiadau oddi wrth y bwrdd ymyrraeth i ddefnyddio safle tirlenwi Penhesgyn ar gyfer cael gwared â chyrff anifeiliaid sydd wedi'u lladd o dan y cynllun lles da byw-gwaredu? (OAQ11440) [R]

**Carwyn Jones**: Gwnaed cais ond cafodd ei dynnu'n ôl yn ddiweddarach.

**Ailstocio Ffermydd ar ôl Argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau**

**C17 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i alluogi ffermwyr i ailstocio'u ffermydd ar ôl argyfwng clwy'r traed a'r genau? (OAQ11496)

**Carwyn Jones**: Cyn ailstocio, rhaid ystyried y risg o'r clwyf yn ailymddangos ar y fferm. Caniateir ailstocio gydag anifeiliaid prawf o'r tu allan i ardal heintus 21 diwrnod ar ôl y gwaith golchi a diheintio terfynol. Byddai'r anifeiliaid prawf yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ac yn cael profion gwaed ar ôl bod ar y fferm am 28 diwrnod er mwyn sicrhau nad yw'r clwy'n bresennol.

**Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001**

**C18 Alun Cairns:** Sawl gwaith y mae'r Gweinidog wedi arfer ei bwerau o dan Reoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001? (OAQ11453)

**Carwyn Jones**: Mater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yw hwn.

**Cynnyrch Amaethyddol a Llaeth Cymru**

**C19 William Graham:** Pa fesurau y bydd y Gweinidog yn eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod cynnyrch amaethyddol a chynnyrch llaeth Cymru yn adennill y gydnabyddiaeth gyffredinol a fu iddynt o ran eu hansawdd a safon eu cynhyrchu? (OAQ11474)

**Carwyn Jones**: Yr wyf wedi gofyn i Gyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru gyflwyno cynigion i gynorthwyo'r sector bwyd-amaeth i adennill busnes yn dilyn effaith clwy'r traed a'r genau. Bydd hyn yn rhan o gynllun adfer cyffredinol ar gyfer Cymru wledig, sy'n rhan o waith grŵp gorchwyl a gorffen y Bartneriaeth Wledig ar yr economi wledig.

Lle bynnag y bo'n bosibl, yr wyf yn ceisio sicrhau bod cynnyrch amaethyddol a chynnyrch llaeth Cymru'n cael cydnabyddiaeth am eu hansawdd a'u safonau uchel. Drwy strategaeth bwyd-amaeth Gymreig y Cynulliad Cenedlaethol, mae Cyfarwyddiaeth Fwyd y WDA yn arwain ar ddatblygu economaidd yn y sector bwyd-amaeth, hyrwyddo cynnyrch Cymreig a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith ar gyfer cig oen, cig eidion, cynnyrch llaeth a chynnyrch organig. Caiff cynnyrch Cymreig, a'i ansawdd a'i safonau uchel ei hyrwyddo mewn sioeau amaethyddol, ffeiriau bwyd, arddangosfeydd, marchnadoedd ffermwyr yma a thramor. Mae'r Gyfarwyddiaeth Fwyd hefyd yn datblygu strategaeth glir a safleoedd brandio ar gyfer bwyd a diod Cymru ar hyn o bryd.

Mae cwmni Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyfyngedig hefyd yn parhau i hyrwyddo cig oen a chig eidion yn y marchnadoedd gartref a thramor lle mae'n mynd ati'n frwd i dargedu prynwyr i ailgadarnhau ac ail-lansio ein cynnyrch o safon uchel. Mae'r Comisiwn Cig a Da Byw yn hyrwyddo gwell effeithiolrwydd yn niwydiannau da byw a chynnyrch da byw Prydain Fawr ac yn annog pobl i fwyta cig a chynnyrch cig.

**Rôl Cwmnïau Cydweithredol yn y Byd Amaeth yng Nghymru**

**C20 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch rôl cwmnïau cydweithredol yn y byd amaeth yng Nghymru? (OAQ11463)

**Carwyn Jones**: Credaf fod gan ffermwyr gyfle clir i wella eu safle yn y farchnad drwy ddatblygu cwmnïau cydweithredol. Byddai cydweithredu'n cryfhau gallu ffermwyr Cymru i drafod gyda, a chyflenwi, y lladd-dai a'r proseswyr mawr a'u cwsmeriaid adwerthol mawr.

Fodd bynnag, mater masnachol i fudiadau unigol yn y diwydiant ffermio yw sut y ffurfir mentrau cydweithredol. Bydd y Cynulliad yn cefnogi mentrau o'r fath dan y strategaeth bwyd-amaeth lle bo gwir botensial sylweddol i gynorthwyo'r diwydiant.

Mae cymorth grant ar gael dan y cynllun datblygu marchnata i gynorthwyo ffermwyr, tyfwyr a phroseswyr i wella eu harbenigedd marchnata. Mae'r cynllun yn darparu cefnogaeth am 50 y cant o'r costau cymwys. Mae Cyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru hefyd yn darparu cymorth i ddatblygu grwpiau o gynhyrchwyr.

**Grŵp Dyfodol Ffermio**

**C21 Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y camau a gymerwyd tuag at drefnu cyfarfod nesaf y grŵp Dyfodol Ffermio er mwyn trafod a diffinio dyfodol amaethyddiaeth Cymru yn y tymor hir? (OAQ11475)

**Carwyn Jones**: Bydd y grŵp yn ailgyfarfod ar 11 Mehefin.

**Cyfyngu ar Symud Da Byw**

**C22 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynigion i gyfyngu ar symud da byw? (OAQ11509) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Hyfforddiant i Deuluoedd Ffermio yng Ngogledd Cymru**

**C23 Alison Halford:** Pa fesurau a gaiff eu cymryd i wella hyfforddiant teuluoedd ffermio yng ngogledd Cymru, yn enwedig o ran arallgyfeirio? (OAQ11433)

**Carwyn Jones**: Mae anghenion hyfforddi ffermwyr a'u teuluoedd, yn nhermau eu busnesau presennol a'u cyfleoedd i arallgyfeirio, yn cael eu hystyried gan y grŵp strategaeth datblygu ffermydd. Bydd darpariaeth ar gyfer rhoi sylw i'r anghenion hynny yn rhan o'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio.

**Cynhadledd Ewropeaidd ynghylch Cyfyngu Cnydau a Addaswyd yn Enetig**

**C24 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ystyried galw cynhadledd Ewropeaidd ynghylch cyfyngu cnydau a addaswyd yn enetig, i'w chynnal yng Nghymru gyda rhanbarthau eraill yr Undeb Ewropeaidd sydd â dyheadau tebyg o ran y mater hwn? (OAQ11510)

**Carwyn Jones**: Nid oes gennyf gynlluniau ar hyn o bryd i gynnal cynhadledd Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'r Cynulliad yn bwrw ymlaen â'i waith o gyhoeddi hysbysiadau gwahardd dan adran 110 Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 er mwyn gosod pellteroedd gwahanu rhwng cnydau a addaswyd yn enetig a chnydau organig ar sail statudol. Daw hyn â hysbysiad Erthygl 16 dan y Gyfarwyddeb Ewropeaidd 90/220 i rym a bydd yn rhoi cyfle i'r Cynulliad fynd â'i bryderon cyfreithiol ac egwyddorol ynghylch diffyg mesurau amddiffyn ar gyfer y sector organig yn syth at y Comisiwn Ewropeaidd ac i'r holl aelod-wladwriaethau.

**Dyfodol Pysgota yng Nghymru**

**C25 Huw Lewis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda grwpiau pysgota a chynrychiolwyr y maes ynghylch dyfodol pysgota yng Nghymru? (OAQ11477)

**Carwyn Jones**: Yr wyf wedi cynnal trafodaeth amrywiol gyda nifer o grwpiau ac unigolion sy'n pysgota. Mae nifer o bobl eraill sydd â diddordeb mewn pysgota hefyd wedi ymateb i ymarferion ymgynghori ar wahân ynghylch yr adolygiad o bysgodfeydd eog a physgod dŵr croyw ac astudiaeth Nautilus i bysgodfeydd morol a mewndirol Cymru. Bu'r Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig yn ystyried canlyniadau'r astudiaeth yn ei gyfarfod ar 16 Mai.

**Welsh Country Foods, Gaerwen**

**C26 Peter Rogers:** A ddefnyddir lladd-dy Welsh Country Foods yn y Gaerwen ar Ynys Môn i ladd anifeiliaid o dan y cynllun lles da byw-gwaredu? (OAQ11437) [R]

**Carwyn Jones**: Fe'i defnyddir at y diben hwnnw.

**Gweithrediad y Bwrdd Ymyrraeth**

**C27 David Davies:** A gynhelir adolygiad o'r modd y mae'r bwrdd ymyrraeth yn gweithredu yng Nghymru? (OAQ11469)

**Carwyn Jones**: Yr wyf yn ymwybodol o'r feirniadaeth a gafwyd ynghylch y bwrdd ymyrraeth a'r cynllun gwaredu lles da byw. Yr wyf wedi ysgrifennu ar lefel weinidogol at y Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac mae fy nghydweithwyr yn parhau i gydweithio â'r bwrdd ynghylch datrys yr anawsterau gweithredol a ddaeth i'r amlwg.

**Datblygu Mart Caerfyrddin**

**C28 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y camau a gymerwyd i ddatblygu mart Caerfyrddin? (OAQ11419) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Coed wedi'u Plannu gan y Comisiwn Coedwigaeth**

**C29 Peter Black:** Pa rywogaethau o goed sydd wedi'u plannu ar hyn o bryd gan y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, ac ym mha gyfrannau y mae'r gwahanol rywogaethau hynny? (OAQ11454)

**Carwyn Jones**: Dyma'r wybodaeth:

| | |
|---|---|
| Pyrwydd Sitca | 64 y cant |
| Pyrwydd Norwy | 11 y cant |
| Llarwydd | 10 y cant |
| Ffynidwydd Douglas | 7 y cant |
| Pinwydd | 6 y cant |
| Eraill | 2 y cant |

Er na wneir ond 2 y cant o’r ailblannu â rhywogaethau dail llydan, mae coedwigoedd sydd wedi’u torri lawr yn cynnwys 10 y cant o dir agored ac adfywiad naturiol o rywogaethau dail llydan, nad ydynt yn ymddangos yn y ffigurau hynny.

**Trafodaethau gyda DETR (Cnydau a Addaswyd yn Enetig)**

**C30 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cynnal gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau ynghylch profi cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru? (OAQ11499)

**Carwyn Jones**: Ar 18 Ionawr 2001, cyfarfûm â’r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn Llywodraeth y DU, Michael Meacher, ac eglurais iddo beth oedd pryderon y Cynulliad ynghylch cnydau a addaswyd yn enetig yn cael eu tyfu yng Nghymru. Ar 22 Ionawr, mynychais i, ynghyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy, gyfarfod â’n cydweithwyr o Weithrediaeth yr Alban a Chabinet y DU, er mwyn ystyried y mater o gnydau a addaswyd yn enetig. Lleisiwyd barn y Cynulliad yn gryf. Ysgrifennais at Michael Meacher ar 23 Mawrth a 5 Ebrill 2001 hefyd.